

# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**  
**Remote Attendance**  
**Dydd Iau, 3ydd Chwefror, 2022, 10.00 am**

## **CYNGHORWYR YN BRESENNOL**

Cynghorydd Sirol P. Jordan (Chairman)  
Cynghorydd Sirol: J.Becker, D. Evans, R.Roden,  
Frances Taylor, Phil Murphy, V. Smith

## **SWYDDOGION YN BRESENNOL**

Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle  
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter  
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Mark Hand, Pennaeth Llundain Lle, Tai, Priffyrdd a  
Llifogydd  
Matthew Lewis (Cefn Gwlad), Arweinydd Interim  
Perfformiad, Gwerthuso a Datblygu Rhaglen  
BywydMynwy  
Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu,  
BywydMynwy  
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog  
Dave Loder, Rheolwr Cyllid

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Sirol: A.Davies, M.Feakins, G. Howard and B. Strong

### **1. Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### **2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion gan y cyhoedd.

### **3. Craffu'r Gyllideb: Craffu'r cynigion ar gyfer cyllideb 2022/23.**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Phil Murphy y cyflwyniad ac ateb cwestiynau'r aelodau gyda Ian Saunders, Jonathan Davies, Frances O'Brien, Mark Hand a Cath Fallon.

#### **Her:**

*A allwn gael trosolwg o statws ein cronfeydd wrth gefn a sut y gallem o bosibl eu cynyddu yn y dyfodol?*

Fe wnaethom lwyddo i gynyddu ein cronfeydd wrth gefn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Maent tua £7m. Mae'r weinyddiaeth hon wedi llwyddo i aros o fewn ei chyllideb bob amser a gobeithiwn gael gwaged erbyn 31 Mawrth - os felly, byddwn yn medru parhau i gefnogi ein cronfeydd wrth gefn. Fe wnaeth yr enilliad TAW mawr ychydig flynyddoedd yn ôl hynny ac roedd gwaged sylweddol ar y gyllideb y llynedd, gan roi £4.6m. Felly mae'r cronfeydd wrth gefn yn cadw lan yn dda, ond nid yw'n cymryd llawer i roi tolc mawr ynddynt.

*A yw MonLife yn rhoi adenilliad priodol ar fuddsoddiad? A yw'n benderfyniad ariannol cadarn?*

Y broblem gyda MonLife ar hyn o bryd yw na allant gael y nifer arferol o defnyddwyr oherwydd cyfyngiadau Covid. Gyda'r gwelliannau a wnawn i'n canolfannau hamdden rydym yn canfod fod aelodaeth yn codi'n sylweddol. Roedd Trefynwy eisoes yn gwneud yn dda iawn. Mae'r Fenni yn cael adolygiadau da a bydd Cil-y-coed yn gweld cynnydd sylweddol os yw cynnig codi'r gwastad yn llwyddiannus yn yr ail gylch. Os llwyddwn i gadw y cynnydd mewn defnyddwyr, byddant yn talu amdanynt eu hunain a ddylai roi sicrwydd yn nhermau'r darlun hirdymor.

Mae diben MonLife yn ehangach na chanolfannau hamdden ac uchelgais iechyd, llesiant, lles meddwl ac yn y blaen. Cafodd dyfodol y gwasanaethau hyn ei benderfynu lai na dwy flynedd yn ôl, canlyniad hynny oedd bod y Cyngor eisiau model mewnol – roedd edrych ar y wahanol fodolau yn broses 4-blynedd. Mae'r enilliad ar fuddsoddiad o MonLife yn amlwg, oherwydd y buddion enfawr y mae'n eu rhoi. Mae cynghorau eraill sydd wedi allanoli wedi colli rheolaeth ar opsiynau prisio, lle gallwn ni gan bennaf gadw ein prisiau yn fforddiadwy ar gyfer teuluoedd Sir Fynwy.

*Pa ffioedd sy'n cael eu cynyddu a gan faint?*

Mae'n rhestr enfawr. Cafodd ffioedd eu cynyddu gan cyn lleied ag sydd modd, lle'n bosibl; 2.5% yw'r cyfartalog. Ond caiff rhai eu gosod yn allanol, felly nid oes gennym unrhyw ddewis amdanynt. Mae'r rhestr lawn ym mhapurau'r Cabinet y mae dolenni iddynt ar yr agenda. Yr unig feysydd lle'r ydym yn edrych ar gynyddu ffioedd yw Menter a Gofal Cymdeithasol.

*Cafodd yr ymrwymiad i faterion argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol ei nodi – a fedrwn gael manylion beth mae hynny yn ei gynnwys?*

Mae ystod mawr o bethau, tebyg i geir trydan, treialon gyda hydrogen, y posibilrwydd o ail fferm solar, yr elw o siopau ailddefnydd yn mynd i blannu coed ac yn y blaen. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf anelwn drawsnewid ein fflyd – mae hynny'n un o'r pethau allweddol - ond hefyd bethau fel buddsoddiadau mewn tiroedd a bioamrywiaeth. Mae hyrwyddo ac annog cerdded a seiclo fel rhan o Deithio Llesol hefyd yn bwysig iawn. Mae hyrwyddo yn neilltuoel o bwysig yn yr ardal hon, yn arbennig mewn ysgolion a ledled cymunedau, felly dyna lle mae angen i beth o'r cyllid fynd er mwyn gostwng teithiau car heb fod yn hanfodol.

Mae un cynnig mandad cyllideb penodol am swydd ychwanegol o fewn y tîm traffig a diogelwch ffyrdd i gydweithio'n agos gydag ochr priffyrdd traffig diogelwch ffyrdd a'r tîm teithio llesol i edrych ar wella llwybrau diogelach i ysgolion – gobeithio y bydd hyn yn rhoi ffyrdd amgen i blant gyrraedd yr ysgol. Rydym hefyd yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o fewn ysgolion i annog dulliau eraill o drafndiaeth – mae hynny'n parhau, a sicrhawyd cyllid ychwanegol eleni ar gyfer hyfforddiant seiclo oedolion. Mae gwaith adfywio canol trefi yn gysylltiedig â'r gwaith teithio llesol, gan gefnogi masnachu awyr agored a'u gwneud yn fwy cyfeillgar i bobl ac yn cael eu dominyddu lai gan geir.

*A yw'r pwysau cyllideb Ailgyrchu a Gwastraff £1.22m oherwydd nifer uwch o breswylwyr yn defnyddio gwasanaethau? Mae arbediad o £860k o aildendro contractau – a yw'r arbediad hwnnw yn ychwanegu at neu'n gwrthbwysu'r pwysau ar y gyllideb?*

Bu cynnydd sylweddol mewn cyfraddau ailgyrchu (yn arbennig ers cyflwyno'r system archebu), sy'n costio llawer mwy. Mae'r cynnydd mewn deunydd ailgyrchu a deunydd a gesglir ar ymyl y ffordd yn golygu fod angen adnoddau ychwanegol h.y. cerbydau a staff. Mae hefyd gostau gwaredu ychwanegol. Mae'r arbediad drwy ailgaffael y contract ailgyrchu aelwydydd o Viridor i Suez.

*Nid wyf erioed wedi cael cynifer o ymholiadau am golli casgliadau ag a gefais yn yr ychydig fisoedd diwethaf. A oes rheswm dros hyn? Wnaethon ni ddim sicrhau cerbydau ychwanegol yn ddiweddar oherwydd fod y contract yn dod i ben neu ein bod angen rhai gwahanol? A oedd hyn oherwydd y cynnydd mewn ailgyrchu?*

Mae'r ffaith y caiff mwy o ddeunydd ei gasglu wrth ochr y ffordd yn porthi'r gofyniad am fwy o staffio a cherbydau. Cafodd casgliadau eu colli wrth i staff newydd ddod yn gyfarwydd gyda'u rowndiau. Rydym yn cynnal adolygiad o'r system i ddeall pam fod gennym gymaint o alw yn dod i mewn yng nghyswllt casgliadau a gollwyd.

*Mae gennym bwysau o £781k o beidio gwireddu buddsoddiadau. Beth ydyn ni'n ei wneud i liniaru hynny? Ai yw oherwydd nad yw ein buddsoddiad strategaeth bellach yn addas i'r diben, yn dilyn Covid? A yw'r pwysau yn cynnwys Parc Manwerthu Spytty a'r golled bosibl o incwm yn adeilad Mitel?*

Mae'n cynnwys y ddau. Mae'n rhaid i'r ateb i hyn fod yn ofalus iawn gan fod llawer o waith masnachol sensitif yn mynd rhagddo. Rydym bron yn sicr o fod yn dyfarnu gofod i gwmnïau, yn arbennig yn Castlegate. Ymddengys fod llawer o waith yn dod i ffrwyth, ond ni fedrir rhoi mwy o wybodaeth ar hyn o bryd.

*Mae pwysau fel canlyniad i effaith gronnyd costau trysorlys a benthyca – ydyn ni wedi newid ein strategaeth? Beth yw'r rhagolygon? Beth fydd ein dull gweithredu yn y dyfodol ar gyfer benthyca a rheoli trysorlys?*

Bydd y strategaeth trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn mynd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 28 Chwefror, fydd yn esbonio llawer o'n hymagwedd at fenthyca ar gyfer y flwyddyn nesaf a chaiff ei derbyn gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth. Ers 2-3 blynedd buom ar waelod cromlin cost trysorlys ac mewn amgylchedd cost llog isel tu hwnt. Er bod hyn wedi ein galluogi i gynnal costau trysorlys isel ac y bu hynny o fudd i'r gyllideb refeniw, rydym hefyd yn gorfod cydbwysu'r sefyllfa honno gyda chadw llygad ar y tymor canol – mae angen i ni gloi sicrwydd i'r gyllideb refeniw. Weithiau daw hynny ar gost tymor byr, er enghraifft bu ein benthyca dros y 12 mis diwethaf yn dymor byr ond roedd cyfle ym mis Rhagfyr i gymryd benthyciad 50-mlynedd gyda'r Bwrdd Benthyca Gweithiau Cyhoeddus. Gwnaethom hynny, gan

fenthycha ar gyfraddau hanesyddol isel a wnaeth ein galluogi i gloi sicrwydd am 50 mlynedd. Mae gennym ymrwymiadau fel ysgol 3-19 y Fenni, y bydd yn rhaid i ni fenthycha i dalu ein cyfran o'r gost. Mae angen i ni gael strategaeth gytbwys.

Ar hyn o bryd mae gennym fenthycha, sydd ychydig yn is na'n hangen, felly rydym yn defnyddio adnoddau mewnlol i gyllido elfen o hynny, sy'n parhau i gadw costau trysorlys yn isel. Mae'r gost fenthycha gronnu yn llwyr oherwydd fod ein gwariant cyfalaf yn y tymor canol. Er ein bod ar waelod cromlin cost trysorlys, rydym yn cymryd camau i roi peth sicrwydd ynddo, fel nad ydym yn agored i gynnydd mewn cyfraddau llog a fedrai fod ar y gorwel.

*Ond mae'r £1.3m yn fwy na'r hyn y gwnaethom ei ragweld – pam?*

Nid yw oherwydd ei fod £1.3m yn fwy nag y gwnaethom ragweld ond mae cyllideb y trysorlys yn gyllideb cost-lawm, felly nid yw un flwyddyn byth yn mynd i fod yr un fath ag un arall. Yr hyn a welwn yw fod costau'n newid o un flwyddyn i'r llall, oherwydd y bu'n rhaid i ni fenthycha ar gyfer rhai cynlluniau, cyfraddau wedi newid ac ati. Roedd bob amser yn ffactor hysbys; nid yw ein cynlluniau cyfalaf wedi newid yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

*Mae'r adroddiad yn dweud y byddwn yn talu mwy i'n staff gofal. Faint sydd wedi newid ers y cyflwynwyd y cynnig ym mis Tachwedd i gynyddu tâl ein staff gofal cymdeithasol? A yw'n weithredol ar gyfer y rhai y mae gennym gontract gyda nhw h.y. asiantaethau gofal preifat? Mae'n gwestiwn perthnasol i'r pwyllgor hwn oherwydd mai'r sector gofal yw'r sector cyflogaeth sy'n tyfu fwyaf.*

Rydym yn gweld cynnydd uwch nag erioed gan ein darparwyr gofal oherwydd eu gofyniad i dalu o leiaf y cyflog byw gwirioneddol – mewn gwirionedd. maent yn gorfod talu mwy na hynny i ddenu a chadw staff. Mae'n ymwneud yn gyffredinol â phwysau cysylltiedig â thâl; yn dod drwy'r system. Eve Parkinson neu Jane Rodgers fyddai yn y sefyllfa orau i roi manylion pellach.

*Caiff nifer o swyddogion eu hariannu gan gyllid yr Undeb Ewropeaidd, sy'n dod i ben ym mis Hydref. Beth yw'r risg na fydd cyllid yn ei le yn dod ar gael?*

Bydd diwedd cyllid Ewropeaidd â goblygiadau ar gyfer nifer o swyddogion ar draws yr awdurdod, ar wahanol gyfnodau dros yr ychydig flynyddoedd ariannol nesaf. Rydym yn gwneud llawer o waith i fapio ein staff, i ddeall eu sgiliau a gweld lle gellid eu hadleoli. Ond rydym yn aros ar hyn o bryd i ganfod beth sy'n digwydd gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac yn ymchwilio beth fedrid ei wneud gyda chyllid ychwanegol. Byddir yn gofyn i'r swyddogion perthnasol am ymateb llawn i'r cwestiwn hwn a chaiff hynny ei gylchredeg.

*Ar faint o swyddogion mae hyn yn effeithio?*

Mwy na 20 mewn Cyflogaeth a Sgiliau, yn ogystal â'r tîm Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'n anodd rhoi niferoedd pendant gan y bydd rhai yn symud ymlaen i raglenni a gaiff eu cyllido mewn ffordd arall.

**4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu dyddiedig 9fed Rhagfyr 2021.**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion.

**Cyfarfod Arbennig - Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu dyddiedig 14eg Rhagfyr 2021 (i ddilyn).**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion.

**5. Rhaqlen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.**

**6. Blaenraglen Waith y Cynqor a'r Cabinet.**

**7. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth 15 Mawrth 2022 am 10.00am.